

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Swyddog Cyfathrebu- Gwasanaeth Traffig Cymru

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



**Mark McNamara**
**Pennaeth Gwasanaeth ACGCHC**

Yn yr ACGChC  rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Swyddog Cyfathrebu

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.

Rydym yn chwilio am Swyddog Cyfathrebu i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** S2 (SCP 18 - 22) £32,482 - £34,709

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** Parc Menai / Conwy / Helygain
Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ymweld â Chanolfan Rheoli Traffig Conwy bob wythnos.

**Oriau:** 37 (Gweithio'n Hybrid)

**Dyddiad cau:** 15/06/2026

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

Ymgeisiwch

# Pwrpas y swydd

- Cynorthwyo gyda darpariaeth dydd-i-ddydd Gwasanaeth Cyfathrebu Traffig Cymru Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.
- Cynorthwyo i ddatblygu gweithdrefnau a phrotocolau i gefnogi gweithrediad y gwasanaeth.
- Dirprwyo ar ran y Rheolwr Cyfathrebu yn ôl y gofyn gan ddarparu cyflenwad dros dro o Gydlynwyr Cyfathrebu Gwasanaeth Traffig Cymru yn ystod cyfnodau o absenoldeb neu yn ystod digwyddiadau pwysig a digwyddiadau annisgwyl.
- Wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod, cysylltu, fel y bo'n briodol, â swyddogion Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Partner a rhan-ddeiliaid eraill.

**<u>Darparu Gwasanaeth Traffig Cymru</u>**

Bydd y gweithgareddau yn cynnwys:

- Gweithredu fel y cyswllt cyntaf ar gyfer y Gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg
- Ymateb i ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill y gwasanaeth hwn (ar rif ffôn '0300' penodol) mewn modd proffesiynol, yn ogystal â thrwy e-bost, er mwyn darparu amrywiaeth eang o ymatebion, gan gynnwys: statws y rhwydwaith, cyngor ar waith ffordd, cyngor ar lwybrau a gwybodaeth am gyrchnodau
- Ymateb i bob e-bost a dderbynnir
- Cydlynu gyda'r Awdurdodau Heddlu perthnasol
- Ymgysylltu gyda gweithredwyr ystafell reoli Gogledd a De Cymru, a staff rheoli rhwydwaith, a chofnodi pob ymholiad ac ymateb yng nghronfa ddata Rheoli Ymholiadau'r Cyhoedd Llywodraeth Cymru



# Cyfrifoldebau

## Swyddogaeth Traffig Cymru

Traffig Cymru yw gwasanaeth gwybodaeth traffig Llywodraeth Cymru (LlC), y gofynnwyd i'r Asiant ei ddarparu ledled Cymru. Traffig Cymru yw'r cyswllt rhwng y cyhoedd a Chanolfannau Rheoli Traffig Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru (Conwy) a De Cymru (Coryton). Mae LlC yn ymgeisio i wella'r gwasanaeth trwy ehangu'r dulliau o gyflwyno gwybodaeth er mwyn cael effaith arwyddocaol o gadarnhaol ar reoli'r rhwydwaith ffyrdd yn effeithiol.

- Cyfrifoldeb rheolwr llinell a chyfrifoldeb gweithredol dros y tîm o Gydlynwyr Cyfathrebu Traffig Cymru.
- Cynorthwyo i drefnu rota staff er mwyn sicrhau bod gofynion gweithredol LlC yn cael eu cyflawni.
- Cynorthwyo i fonitro safon a gwasanaeth Traffig Cymru gan y Cydlynwyr a staff yr Ystafell Reoli rhwng 7pm a 7am.
- Diogelwch yr adeilad rhwng 7.00am a 7.00pm
- Cynorthwyo i ddatblygu gweithdrefnau gweithredu, protocolau a gwefan a system Traffig Cymru.
- Cynorthwyo i ddatblygu ffrydiau cyfathrebu er mwy caffael gwybodaeth sy'n berthnasol i weithrediadau'r cefnffyrdd yng Nghymru.
- Caffael gwybodaeth sy'n ymwneud â thraffig a'r rhwydwaith o amryw ffynonellau, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth, Staff Gweithredol a Gwaith Ffordd ACGChC, Llywodraeth Cymru a sefydliadau sector breifat e.e. Google, Tom-tom a Roadworks.org
- Rheoli'r modd y mae'r tîm cyfathrebu'n rhannu gwybodaeth berthnasol â'r cyhoedd sy'n teithio, trwy ddefnyddio gwefan Traffig Cymru ac amryw o ddulliau cyfryngau cymdeithasol megis X a Facebook.
- Ymateb i ymholiadau a chwynion y cyhoedd sy'n teithio, trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ffôn neu e-bost.
- Darparu'r cyswllt cyfathrebu rhwng y Canolfannau Rheoli Traffig yng Nghoryton a Chonwy.




# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

## Nodweddion personol

### Hanfodol

Sgiliau cyfathrebu Rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Arddangos mentergarwch personol arwyddocaol a'r gallu i ymdrin â phobl ar bob lefel yn gwrtais, yn sensitif a phroffesiynol.
Gallu i flaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.
Gallu i arwain eraill a rheoli blaenoriaethau gwaith staff is.
Gallu i weithio o dan bwysau a gallu i ymdrin â dyddiadau cau llym.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

### Hanfodol

Pump TGAU o leiaf, yn cynnwys Saesneg, Mathemateg a Chymraeg.
NVQ Lefel 3 mewn cymhwyster sy'n seiliedig ar Gyfathrebu ymhen dwy flynedd o'r penodiad.

### Dymunol

ECDL.
Cymwysterau mewn Astudiaethau Cyfathrebu, Astudiaethau Busnes neu bwnc perthnasol arall.

## Profiad perthnasol

### Hanfodol

Profiad mewn swydd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
Profiad o weinyddu mewn amgylchedd swyddfa brysur.

### Dymunol

Profiad o oruchwylio tîm.
Ymdrin ag ymholiadau'r cyhoedd, aelodau etholedig a Llywodraeth Cymru yn effeithiol.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

### Hanfodol

Cyfarwydd gyda phecynnau cyfrifiadurol e.e. Windows, Excel, ac ati.
Y gallu i gyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
Sgiliau datrys problemau.
Sgiliau negodi.

### Dymunol

Cyfarwydd gyda gweithdrefnau perthnasol llywodraeth leol a/neu ganolog
Cyfarwydd gyda Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac Amddiffyn Data 2018.

## Gofynion ieithyddol

### Hanfodol

Mae'r gallu i siarad Saesneg a Cymraeg i lefel uchel yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu staff

- Gwyliau blynyddol hael - i'w gadarnhau adeg yr apwyntiad

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
- Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.